# Cynllun Adnoddau Coedwig Myherin a Tharenig

## Cylchlythyr ymgynghori

Mehefin 2025

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Yn ddiweddar, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ymgynghoriad ar y Cynllun Adnoddau Coedwig newydd, sy'n cwmpasu arwynebedd o 4,787 hectar ac sy'n cynnwys coedwigoedd Myherin a Tharenig, yn ogystal â thros 1,000 hectar o dir agored ar y bryniau.

Parhaodd y cyfnod ymgynghori o 14 Ebrill tan 16 Mai, a chafodd ei hysbysebu'n eang yn y wasg leol, ar y cyfryngau cymdeithasol, ar bosteri wrth fynedfeydd y coedwigoedd ac ar hysbysfyrddau cymunedol. Hysbyswyd pobl sy'n byw ger y goedwig drwy lythyr, a chysylltwyd hefyd â dros ddeugain o sefydliadau ar ein rhestr o randdeiliaid. Rhoddwyd gwybod i gynghorau cymuned lleol, Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd.




Yn ystod y cyfnod ymgynghori, roedd pobl yn gallu gweld y cynlluniau newydd a gwneud sylwadau ar-lein, yn ogystal â chysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost. Cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio, yng nghanolfannau cymunedol Llangurig (1 Mai) a Phontarfynach (2 Mai).

Diben y cylchlythyr hwn yw rhoi crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gennym, ac egluro sut y byddwn yn ei ddefnyddio i wella ein rheolaeth o'r coedwigoedd.

Yn gyntaf, serch hynny, hoffem anfon ein diolch i bawb a gymerodd yr amser i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a rhoi eu barn i ni. Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y canolfannau cymunedol yn Llangurig a Phontarfynach, a'n helpodd i drefnu'r digwyddiadau.

***Pwy wnaeth ymateb?***

Roedd yr ymatebion yn bennaf gan unigolion lleol, ond roeddent hefyd yn cynnwys ymwelwyr â'r goedwig o ymhellach i ffwrdd. Rhoddodd sawl sefydliad rhanbarthol a chenedlaethol ymateb manwl ar ran eu haelodau.

Trigolion lleol ddaeth yn bennaf i'r sesiynau galw heibio (daeth tua thri deg o bobl draw), a rhai contractwyr coedwigaeth, a daeth staff o sefydliadau eraill draw i drafod y

cynlluniau. Roedd cynrychiolaeth dda o CNC, gyda'r Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau, y Cynllunydd Adnoddau Coedwig, ac aelodau o'r timau Gweithrediadau Coedwigaeth a Rheoli Tir yn bresennol ar y ddau ddiwrnod.

***Beth oedd yr ymateb?***

Ar y cyfan, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r Cynllun Adnoddau Coedwig, ac roedd pobl yn awyddus i gael dweud eu dweud ar reolaeth ystâd y goedwig gyhoeddus. Cafodd cyfeiriad cyffredinol rheolaeth y goedwig (a nodir yn amcanion y cynllun) dderbyniad da. Roedd cefnogaeth sylweddol i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau coed, gan ddefnyddio systemau coedamaeth bach eu heffaith, a chynyddu maint coetiroedd llydanddail. Roedd gan nifer o bobl ddiddordeb mewn gwaith adfer ar fawndiroedd, ac roedden ni'n gallu darparu rhagor o wybodaeth am hyn. Roedd rhai pryderon a sylwadau negyddol hefyd: ymdrinnir â'r rhain yn fanylach isod.

***Beth sy'n digwydd nawr?***

Rydym wedi casglu ynghyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac wedi ymateb ar wahân i bobl a grwpiau a anfonodd sylwadau manwl atom dros yr e-bost. Rydym wedi casglu'r prif faterion at ei gilydd ar gyfer y crynodeb ar yr ychydig dudalennau nesaf.



# Materion a godwyd yn yr ymgynghoriad

## Rhywogaethau coed a strwythur y coedwigoedd

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Yn cefnogi cynyddu amrediad y rhywogaethau, a lleihau goruchafiaeth sbriws Sitca. Yn gyffredinol, mae pobl yn hoffi'r ardaloedd o goed llydanddail a byddent yn hoffi gweld mwy o fewn y coedwigoedd, ond maen nhw'n deall bod y coedwigoedd wedi'u sefydlu i dyfu coed conwydd ar gyfer pren, ac mae hyn yn dal i fod yn amcan pwysig. Awgrymwyd ein bod yn cadw (ar gyfer y tymor hir) ardal yn cynnwys sbriws Sitca cenhedlaeth gyntaf, oherwydd ei hamrywiaeth strwythurol, ei bioamrywiaeth, a'i gwerth posibl o ran ymchwil.

***Ymateb CNC:*** Rydym yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol ar yr agweddau hyn ar y cynllun. Nid yw arallgyfeirio ein coedwigoedd yn fenter newydd, ond bu anawsterau yn ystod y blynyddoedd diwethaf (yn enwedig clefyd y llarwydd). Credwn – dros amser – y bydd y coedwigoedd mwy amrywiol yn dod yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â nhw, ac yn fwy gwydn i fygythiadau newid hinsawdd.

Rydym wedi mabwysiadu'r awgrym i ddargadw rhywfaint o sbriws hŷn, ac wedi neilltuo llain yn ne Myherin at ddibenion "dargadw tymor hir".

## Systemau coedamaeth

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Roedd cefnogaeth eang i systemau coedamaeth bach eu heffaith, coedwigaeth gorchudd di-dor, a lleihau maint ac effaith llwyrdorri. Nododd rhai ymatebwyr y bydd hyn yn gwella profiad ymwelwyr â'r coedwigoedd. Derbyniasom gais am wybodaeth ychwanegol, ac ymateb manwl, gan y Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Di-dor. Awgrymwyd y dylem gynnwys systemau coedamaeth a mapiau teneuo fel rhan o'r ymgynghoriad.

***Ymateb CNC:*** Rydym yn cytuno y bydd systemau coedamaeth bach eu heffaith yn gwella profiad yr ymwelwyr ac yn gwneud y coedwigoedd yn lleoedd mwy pleserus i ymweld â nhw. Rydym wedi ymateb ar wahân i bob pwynt a wnaed gan y Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Di-dor, ac wedi derbyn rhai o'u hawgrymiadau fel newidiadau i'r cynllun terfynol.

Mae mapiau'r ymgynghoriad eisoes yn dangos ardaloedd i'w rheoli drwy lwyrdorri, yr ymyrraeth leiaf posib, a systemau coedamaeth bach eu heffaith. Nid ydym yn neilltuo ardaloedd systemau coedamaeth bach eu heffaith i systemau coedamaeth mwy manwl neu amodau gweithredu fel mater o drefn wrth baratoi Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd (mae'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud gan ein tîm Gweithrediadau Coedwigaeth yn ddiweddarach ar raddfa fwy manwl, pan fyddan nhw'n penderfynu sut orau i weithredu'r Cynllun Adnoddau Coedwig). Yn yr un modd, nid yw amodau teneuo manwl yn cael eu penderfynu ar y cam hwn, er y bydd ardaloedd a neilltuwyd i systemau coedamaeth bach eu heffaith yn cael blaenoriaeth ar gyfer teneuo priodol.

## Adfer mawndiroedd

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Roedd diddordeb mewn adfer mawndiroedd (yn enwedig yn y diwrnodau galw heibio). Fe wnaethon ni drafod hyn gyda nifer o bobl, gan egluro'r rhesymau drosto, a dangos lluniau o sut olwg sydd ar safle wedi'i adfer. Roedd y sylwadau'n gadarnhaol ar

y cyfan. Cawsom ymholiad gan gontractwr lleol ynglŷn â gweithio gyda ni ar waith adfer ar fawndiroedd, a awgrymodd ddefnyddio hynny fel cyfle i greu pyllau mwy i'w defnyddio fel ffynhonnell ddŵr wrth reoli tanau gwyllt.

***Ymateb CNC:*** Ewch i wefan y [Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd](#) am ragor o wybodaeth. Mae ein cydweithwyr yn y tîm hwn wedi cysylltu â'r contractwr a ymholodd yn uniongyrchol, i drafod posibiliadau tendro a hyfforddi ar gyfer gwaith ar ystâd y goedwig. Fe wnaethon ni ystyried yr awgrym am byllau, ond teimlwyd bod digon o le yn yr ardal benodol hon i storio dŵr mewn pyllau a chronfeydd dŵr presennol gerllaw. Byddwn yn ystyried hyn mewn mannau eraill, gan y gall pyllau hefyd gynnig manteision i fywyd gwyllt ac amwynder tirweddau.

## Hamdden yn y goedwig

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Cwynodd nifer o ymatebwyr am goed wedi cwympo yn rhwystro llwybrau a thraciau (gan gynnwys rhai â hawliau tramwy). Roedd cydnabyddiaeth bod Storm Darragh (Rhagfyr 2024) wedi creu anawsterau mawr, ond roedd pryderon ei bod wedi cymryd cyhyd i glirio llwybrau, a bod llwybrau wedi'u rhwystro mewn rhai mannau cyn y storm. Cawsom sylwadau ar hyn, a materion cysylltiedig, gan y cyngor sir a'r fforwm mynediad lleol, Cymdeithas Ceffylau Prydain a Chymdeithas Mynyddoedd Cambria.

Roedd pryder ynghylch y perygl y byddai niferoedd uchel o ymwelwyr yn achosi aflonyddwch i'r gymuned leol a defnyddwyr coedwig lleol ("Peidiwch â'i agor fel Hafren"). I'r gwrthwyneb, cafwyd sylwadau bod Coedwig Tarenig yn ymddangos yn anghroesawgar i ymwelwyr, ac y dylem wneud mwy i annog ei defnydd.

Gofynnwyd i ni sicrhau nad yw rhwystro ffosydd (er mwyn gwella ansawdd afonydd) yn achosi llifogydd ar lwybrau â hawliau tramwy, ac nad yw plannu coed yn gorgyffwrdd â'r llwybrau hyn.

Mynegwyd pryder ynghylch hygyrchedd llwybrau i farchogwyr a pheryglon cerbydau'n teithio'n rhy gyflym o fewn y goedwig, a chafwyd cais am arwyddion gwell.

Gofynnwyd i ni wneud mwy i helpu pobl anabl i ddefnyddio'r coetiroedd, a chafwyd rhywfaint o drafodaeth am ffyrdd o wneud hyn.

***Ymateb CNC:*** Rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd i glirio'r holl lwybrau yn y coedwigoedd, ac rydym yn parhau i weithio i'w clirio. Rydym yn cydnabod ein dyletswydd i gadw llwybrau â hawliau tramwy yn glir ac rydym yn blaenoriaethu hyn. Gweithiodd ein staff a'n contractwyr yn ddiwyd yn syth ar ôl Storm Darragh, gan glirio ffyrdd ar gyfer y gwasanaethau brys a phobl leol, cyn symud ymlaen i glirio llwybrau a alluogodd ffermwyr i gyrraedd eu da byw, a'r prif lwybrau oedd eu hangen ar staff a chontractwyr i gael mynediad i'r goedwig. Cliriwyd llwybrau â hawliau tramwy cyn gynted â phosibl, ac ar wahân i ychydig o lwybrau mwy anghysbell, maent bellach yn glir i raddau helaeth. Mae'n cymryd amser hir i gyrraedd pob ardal, ac yn anffodus rydym wedi ein cyfyngu gan argaeledd contractwyr a pheiriannau.

Rydym wedi ymateb drwy e-bost i bwyntiau manwl eraill a godwyd gan wahanol sefydliadau. Rydym wedi cadarnhau nad oes bwriad i rwystro ffosydd yng nghyffiniau llwybrau â hawliau tramwy; mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig newydd yn cynnwys clustogau ehangach o amgylch rhai llwybrau, ac mewn mannau eraill bydd ein tîm Gweithrediadau Coedwigaeth yn sicrhau nad yw coed yn cael eu plannu ar lwybrau yn ystod gweithrediadau ailstocio.

Mae'r posibilrwydd o wneud Coedwig Tarenig yn fwy croesawgar i ymwelwyr yn gyfyngedig oherwydd nid oes gennym gyfleusterau parcio i ymwelwyr yn yr ardal hon, a byddai materion perchnogaeth tir / prydles yn cyfyngu ar eu datblygiad. Nodwn bryder pobl leol mewn perthynas â'r defnydd uchel o Goedwig Hafren. Mae hawliau tramwy (gan gynnwys Llwybr Dyffryn Gwy) yn boblogaidd iawn gyda phobl leol a thwristiaid fel ei gilydd ac rydym yn parhau i gefnogi'r defnydd hwn o'r goedwig.

Rydym wedi siarad â chontractwyr am yr angen i gadw at y terfyn cyflymder a bod yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill y goedwig; mae ein staff wedi gosod arwyddion terfyn cyflymder newydd a byddant yn parhau i fonitro hyn. Mae ein Tîm Rheoli Tir yn edrych ar gyfleoedd i wella arwyddion mynediad cyhoeddus o fewn y goedwig. Yn anffodus, ar hyn o bryd nid ydym yn gallu cynnig cyfleusterau parcio ychwanegol i farchogwyr. Mae ein datganiad sefyllfa ar fynediad i farchogwyr ar gael ar-lein.

Hoffem wneud y coedwigoedd yn fwy defnyddiadwy i bobl anabl, a byddwn yn edrych ar gysylltu â grwpiau mynediad lleol i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau, fel yr awgrymwyd gan un o'r ymatebwyr.

<u>Y Gymraeg</u>

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Sylwadau cadarnhaol am aelodau staff penodol sy'n delio â chymdogion yn y Gymraeg. Awgrymodd sylwadau fod y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ymarfer ymgynghori yn dda.

***Ymateb CNC:*** Rydym yn croesawu'r adborth. Cyhoeddir ein holl ymgynghoriadau ar goedwigaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gall pobl gysylltu ag CNC yn y naill iaith neu'r llall, a byddwn yn ymateb yn y Gymraeg os yw'n well gennych, heb i hyn arwain at oedi.

<u>Cerbydau heb awdurdod</u>

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Roedd sawl person yn pryderu am y defnydd o'r goedwig gan feiciau modur oddi ar y ffordd a cherbydau eraill, gan nodi difrod i'r amgylchedd a llwybrau, sŵn, a pherygl i bobl, ceffylau a chŵn pe byddent yn mynd heibio'n rhy gyflym a heb ystyriaeth.

Dywedwyd wrthym hefyd fod rhai contractwyr yn teithio'n rhy gyflym ar ffyrdd y goedwig. Roedd adroddiadau am bobl yn defnyddio ceir i gyrraedd y bythynnod yn y coedwigoedd (mae Cymdeithas y Bythynnod Mynydd yn awyddus i atal hyn).

***Ymateb CNC:*** Rydym yn ymwybodol o gerbydau heb awdurdod yn defnyddio'r coedwigoedd, ac yn gweithio i atal hyn rhag digwydd. Ers yr ymgynghoriad, mae ein Tîm Rheoli Tir wedi trefnu goruchwyliaeth ychwanegol ar y safle, gan gynnwys diwrnodau gyda'r Tîm Plismona Gwledig. Ym Myherin / Tarenig, mae lefel y defnydd anghyfreithlon o gerbydau yn isel o'i chymharu â rhai coedwigoedd.

Yn gyffredinol, cedwir rhwystrau coedwig ar gau ac wedi'u cloi i atal cerbydau heb awdurdod, ac mae terfyn cyflymder o 15 mya ar gyfer pob cerbyd ar ffyrdd y goedwig. Rydym yn ymwybodol bod rhwystrau weithiau'n cael eu gadael ar agor gan gontractwyr. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, mae ein staff wedi cysylltu â chontractwyr coedwigaeth a rheolwyr ffermydd gwynt i'w hatgoffa o bwysigrwydd cadw at y terfyn cyflymder a chadw'r rhwystrau ar gau. Mae gennym berthynas

dda â Chymdeithas y Bythynnod Mynydd a byddwn yn eu cefnogi i atal mynediad cerbydau i'r goedwig.

Chwaraeon moduro

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Yn cefnogi chwaraeon moduro mewn ffordd a reolir yn ofalus, gan nodi'r manteision economaidd lleol.

***Ymateb CNC:*** Nodwyd. Rydym yn cefnogi rheolaeth ofalus er diogelwch ac i leihau aflonyddwch i eraill. Mae polisi CNC ar chwaraeon moduro wedi'i osod ar lefel uwch yn y sefydliad; ar lefel y goedwig, byddwn yn parhau i weithredu'r polisi hwn.

*Materion yn y Bwa (Myherin)*

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Adroddiadau am gerbydau'n teithio'n rhy gyflym ar ffordd y goedwig. Dywedodd sawl person wrthym am faniau gwersylla'n aros dros nos heb awdurdod, a bod rhai gwersyllwyr yn baeddu yn y coed, ac yn gadael sbwriel. Galwadau am ailsefydlu toiledau cyhoeddus (awgrymwyd toiledau compost). Roedd rhai llwybrau cerdded wedi'u harwyddo wedi'u rhwystro o hyd oherwydd coed a chwalwyd gan y gwynt ar ôl Storm Darragh. Awgrymwyd ein bod yn gosod boncyffion mawr yn rheolaidd ar hyd ffyrdd y goedwig, er mwyn galluogi cerddwyr oedrannus a llai abl i eistedd a gorffwys wrth gerdded o'r maes parcio.

***Ymateb CNC:*** Mae ein Tîm Rheoli Tir bellach wedi gosod arwyddion terfyn cyflymder newydd yn yr ardal hon, ac wedi siarad â chontractwyr am gyflymder cerbydau. Mae rhagor o waith eisoes wedi'i gynllunio i glirio'r rhwystrau o'r llwybrau cerdded. Ni chaniateir gwersylla dros nos (gan gynnwys faniau), ac mae ein staff yn ceisio atal hyn, ond nid yw'n bosibl cael staff yno drwy'r amser. Mae'r Tîm Rheoli Tir yn ystyried y ffordd orau o ddelio â'r materion a godwyd yn y Bwa. Rydym yn hoffi'r awgrym o roi boncyffion i bobl orffwys arnynt, a byddwn yn trefnu hyn yn fuan.

Gweithrediadau coedwigaeth

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Roedd cefnogaeth i gynhyrchu pren yn gynaliadwy a chyfeiriadau at y cyfleoedd cyflogaeth y mae'n eu creu. Roedd cwynion am lwybrau'n cael eu rhwystro gan gontractwyr, bod rhai safleoedd llwyrdorri wedi'u gadael yn flêr, a bod bwlch rhy hir cyn paratoi'r tir ac ailstocio.

***Ymateb CNC:*** Weithiau mae angen cyfyngu mynediad i rannau o'r goedwig yn ystod gweithrediadau, ond dylid gwneud hyn bob amser gydag arwyddion clir, ac ni ddylai fod rhwystrau ar lwybrau ar ôl i'r gwaith ddod i ben. Rydym wedi edrych ar ardaloedd penodol a grybwyllwyd gan ymatebwyr, ac yn deall bod y llwybrau hynny bellach yn glir (er bod rhai llwybrau o hyd wedi'u rhwystro gan goed a chwalwyd gan y gwynt mewn mannau eraill). Mae ein tîm Gweithrediadau Coedwigaeth yn ymwybodol o'r materion hyn, ac yn ymweld yn rheolaidd i oruchwylio safleoedd cynaeafu "byw"; maent yn gweithio i leihau'r amser rhwng llwyrdorri ac ailstocio.

Cludo coed

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Lorïau coed o Goedwig Myherin yn mynd trwy bentrefi lleol, gan achosi difrod i ffyrdd; defnydd o'r ffordd fynyddig rhwng y Bwa a Rhaeadr Gwy.

***Ymateb CNC:*** Mae'r rhan fwyaf o'r pren a gynaeafir yn y coedwigoedd yn gadael ar hyd yr A44, gan ddefnyddio ffyrdd y goedwig drwy Darenig. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bren o Fyherin (sy'n mynd i felinoedd coed i'r de) yn cael ei gludo i'r rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus trwy'r Bwa. Nid oes gan CNC unrhyw awdurdod cyfreithiol dros gludwyr pan fyddan nhw ar y rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus. Fodd bynnag, mae CNC yn rhan o'r Fforwm Cludiant Pren, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'n contractwyr lynu wrth eu canllawiau arferion da. Rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol yng Ngheredigion a Phowys i nodi llwybrau a ffefrir, gyda'r nod o leihau'r defnydd o ffyrdd llai a chadw loriau coed i ffwrdd o ardaloedd bregus.

Rheoli coedwigoedd o ddydd i ddydd

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Roedd pryderon am bobl yn hela heb ganiatâd yn y coedwigoedd, a phryder am lwynogod o'r goedwig yn cymryd ŵyn ar dir fferm cyfagos. Dywedodd ffermwyr oedd yn gymdogion eu bod yn awyddus i gael perthynas dda yn y dyfodol.

Cododd rhai o'n cymdogion agos gwestiynau penodol ynghylch rheoli diogelwch coed, cael mynediad ar hyd ein llwybrau, a rhwystrau.

***Ymateb CNC:*** Mae ein Tîm Rheoli Tir wedi siarad yn uniongyrchol â chymdogion a gododd bryderon ynghylch mynediad a diogelwch coed, ac mae'n gweithio i ddatrys y rhain. Mae'n awyddus i weithio'n effeithiol gyda'n cymdogion, a bydd yn siarad â'r bobl oedd yn pryderu am lwynogod. Mae hela heb awdurdod ar y tir yn anghyfreithlon ac rydym yn ceisio atal hyn, er nad yw'n bosibl, wrth gwrs, cael staff yn bresennol drwy'r dydd a'r nos. Rydym yn cydlynu â Thîm Troseddau Gwledig yr heddlu lle bo modd.

Yr ymgynghoriad ei hun, a'r dull cyfathrebu â ni

***Sylwadau a dderbyniwyd:*** Yn gyffredinol, cafodd yr ymgynghoriad dderbyniad da (gan y rhai a roddodd adborth i ni) ac roedd sylwadau cadarnhaol am y broses yn y diwrnodau galw heibio. Holodd cwpl o bobl a oedd gennym ormod o staff yn bresennol.

Roedd rhai sylwadau negyddol am y mapiau sydd ar gael ar-lein ("anodd eu defnyddio") a holodd rhywun a oeddem yn defnyddio mapiau pridd.

Awgrymwyd ein bod yn darparu map sy'n dangos cyfansoddiad *presennol* y goedwig, i'w gymharu â'r map *gweledigaeth hirdymor*.

***Ymateb CNC:*** Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i wella ymgynghoriadau yn y dyfodol. Mae'n anodd cael y lefel staffio yn union gywir ar gyfer diwrnodau galw heibio, oherwydd dydyn ni ddim yn gwybod faint o bobl fydd yn dod (mae'r digwyddiadau'n cael cyhoeddusrwydd eang). Os bydd rhy ychydig o staff, efallai y bydd pobl yn cael eu cadw'n aros, neu'n gadael heb gymryd rhan. Rydym yn hoffi ymateb yn llawn i gwestiynau manwl, felly mae'n bwysig cael o leiaf y Cynllunydd Adnoddau Coedwig, a phobl o'r timau Gweithrediadau Coedwigaeth a Rheoli Tir, wrth law i esbonio'r cynlluniau ac ateb yr ymholiadau a dderbyniwn.

Rydyn ni'n gwybod nad yw ein ffordd bresennol o ddarparu mapiau ar-lein (fel ffeiliau PDF) yn ddelfrydol. Yn dilyn yr adborth, rydym yn ceisio gwella hyn ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol, pan fyddwn yn defnyddio mapiau gwe rhyngweithiol yn hytrach, a fydd yn caniatáu i'r defnyddiwr symud a chwyddo'r map a throi haenau ymlaen ac i ffwrdd. Gobeithiwn y bydd hyn ar gael ar

gyfer ymgynghoriad nesaf ein Cynllun Adnoddau Coedwig yng nghanolbarth Cymru (ar gyfer Mynyddoedd Cambria yn ddiweddarach eleni), yn amodol ar ddatrys rhai problemau technolegol.

Rydym yn defnyddio mapiau pridd. Fodd bynnag, nid ydym yn eu cynnwys yn yr wybodaeth a gyhoeddir ar gyfer ymgynghoriadau. Mae gennym hefyd setiau data ar wahân ar gyfer mawn dwfn, ac arolygon mawn parhaus. Gall unrhyw un sydd â diddordeb ym mhriddoedd ystâd y goedwig weld mapiau yn Arsyllfa Briddoedd y DU a'r Porth Data Mawndiroedd.

Rydym yn hoffi'r syniad o ddarparu map "gorchudd coedwig cyfredol", a byddwn yn edrych ar wneud hyn mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol. Mae map digidol manwl sy'n dangos cyfansoddiad coedwigoedd presennol eisoes ar gael ar-lein ym MapDataCymru.